Datganiad o Ddiben

MEITHRINFA DDYDD LILLIPUT

Meithrinfa Ddydd Lilliput - Campws Castell-nedd
Datganiad o Ddiben

Diben

Ein nod yw darparu gofal dydd o safon uchel sy'n mwyafu datblygiad, gofal ac addysg plant mewn amgylchedd diogel, ysgogol a gofalgar, lle y gallant ddysgu trwy chwarae mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr.

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput wedi'i chofrestru gydag, a'i harolygu gan, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o dan Ddeddf Plant 1989, i ddarparu gofal dydd neu ofal dydd rhannol ar gyfer bechgyn a merched 12 wythnos oed i 7 mlwydd ac 11 mis oed. Rydyn ni'n cynnig lleoedd meithrinfa ar gyfer plant myfyrwyr, staff y coleg a'r gymuned leol.

Ein rhif cofrestru AGC yw: W060000728/O001/0004.
Gellir darllen ein hadroddiad arolygu diweddaraf yn https://arolygiaethgofal.cymru/

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn dilyn mentrau Llywodraeth Cymru drwy weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, Cynllun Gwên a'r Cynllun Cyn-ysgol Iach Cynaliadwy. Rydyn ni'n aelod o Flynyddoedd Cynnar Cymru (a adwaenir yn ffurfiol fel Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (W.P.P.A.)).

Statws Cyfreithiol a Gwybodaeth Staffio

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o dan ran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Gorchymyn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 a'i reoliadau cysylltiedig i ddarparu gofal dydd. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn safonau gofynnol ar gyfer cofrestru, er mwyn darparu gofal plant o safon. Disgwylir i'r unigolyn cyfrifol ddangos cydymffurfiaeth barhaus y ddarpariaeth gofal dydd, gan roi ystyriaeth i'r datganiadau perthnasol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Yr unigolyn sydd â gofal ar sail bob dydd yw: Andrea Tregoning
Enw'r darparwr cofrestredig: Meithrinfa Ddydd Lilliput
Unigolyn Cofrestredig: Grŵp Colegau NPTC
Unigolyn Cyfrifol: Andrea Tregoning

Mae staff yn cael eu recriwtio a'u cyflogi'n ac yn gweithio'n unol â gofynion rheoleiddio neu'n rhagori ar y rhain.

Rheolwr y Feithrinfa: Andrea Tregoning
Dirprwy Swyddogion Meithrinfa (amser llawn): Cerys Jones a Stephanie Powell
Nyrsys Meithrinfa: mae gennym 1 aelod staff amser llawn ac 15 o aelodau staff rhan-amser.
Prentisiaid: 3 Brentis: Meithrinfa, yn gweithio tuag at eu QCF lefelau 2 a 3 (CCLD).

Mae holl staff y Feithrinfa, ac eithrio Prentisiaid, â chymwysterau Lefel 3 (CCLD neu gyfwerth), neu uwch - Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth er Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Rheoli).

Er mwyn cynnal cymarebau staff/plant o ganlyniad i absenoldeb staff, mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn gweithio gydag Asiantaethau Prospero, Teacher Active a Suppleo. Mae'r holl weithwyr asiantaeth wedi'u fetio ac yn dal tystysgrif DBS.

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn croesawu myfyrwyr ar leoliadau gwaith, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr sy'n cyfoethogi profiadau plant. Mae'r holl fyfyrwyr/wirfoddolwyr yn destun gwiriad DBS cyn eu bod yn dechrau ar y lleoliad gwaith.

Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac yn dal tystysgrifau fel a ganlyn: -

- Gwasanaeth Gwirio/Diweddaru DBS Manwl
- Cymorth Cyntaf Paediatrig - Lefel 3
- Diogelwch Bwyd
- Amddiffyn/Diogelu Plant (Sylfaenol ac Uwch)
- Ymwybyddiaeth ACT – Gweithredu Atal Terfysgaeth
- Trin a Thrafod â Llaw
- Rheoli Ymddygiad
- Cam-drin Domestig
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
- Hyfforddiant Prevent
- Hyfforddiant Warden Tân
- Cyrsiau Cymraeg
- Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol - Blynyddoedd Cynnar
- Dysgu gydag Awtistiaeth - Blynyddoedd Cynnar
- Signalong Cam 1
- Hyfforddiant WellComm
- Hyfforddiant Anturiaethau gydag Alice - Blynyddoedd Cynnar
- PECS (Picture Exchange Communication System)
- Lefel 3, Pontio i Waith Chwarae

Mae'r holl hyfforddiant gorfodol ar raglen dreigl o bob 3 blynedd. Mae staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi, gweithdai a chynadleddau perthnasol. Mae'r Feithrinfa'n derbyn cylchgronau/cylchlythyron *small*talk, Nursery World a Blynyddoedd Cynnar Cymru, sy'n cynnig cyngor ymarferol a gwybodaeth ddiweddar ym meysydd gofal plant ac addysg. Rydym wedi'n cofrestru ar wefan AGC ac yn derbyn newyddion yn rheolaidd am unrhyw newidiadau neu wybodaeth am leoliadau wedi'u rheoleiddio.

Trefniadaeth

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn adeilad penodedig a leolir ar Gampws Castell-nedd. Mae'r adeilad wedi'i rhannu i ddwy brif ardal. Mae ystafell plant dan 2 oed (ystafell fabanod) gyda phrif ardal chwarae, ardal gwneud llanast ac ystafell orffwys ac ystafell dros 2 oed (2 – 7 mlwydd ac 11 mis oed), mae hon yn cynnwys prif ystafell chwarae sydd wedi'i rhannu i "orsafoedd", ardal llawr caled, ystafell celf a chrefft ar wahân ac ystafell gartref.

Mae gan y ddwy ystafell unedau a blychau pren i storio teganau a chyfarpar.

Mae cyfleusterau toiled a newid cewynnau ar gael i'r holl blant, o fewn ystafell ymolchi ar wahân, ym mhob ystafell.

Mae gan blant fynediad i ardal chwarae awyr agored gyda llu o adnoddau. Mae ardaloedd chwarae awyr agored ar wahân yn darparu lle a chyfleoedd digonol ar gyfer gweithgareddau chwarae corfforol awyr agored. Mae gennym ganopi mawr i alluogi plant a staff i fynd allan ym mhob tywydd. Mae ardal cegin fwd ac ardal sydd wedi'i neilltuo ar gyfer garddio.

Mae ardal y gegin, yr ystafell staff a'r swyddfa'n anhygyrch i blant.

Mae'r Feithrinfa'n gweithredu rhwng 7.30am a 6.00pm dydd Llun i ddydd Gwener trwy gydol y flwyddyn, heblaw am Wyliau Banc ac y Nadolig.
Mae'r Feithrinfa wedi'i chofrestru i gymryd 71 o blant ym mhob sesiwn, 47 dros 2 oed a 24 o dan 2 oed. Nid ydym byth yn cymryd mwy o blant na'r hyn a ganiateir gan ein cofrestriad.
Mae cymarebau Oedolion/Plant yn cydweddu â rheoliadau AGC. Yr isafswm cymarebau staffio yw:

- Un oedolyn i dri o blant o dan 2 flwydd oed
- Un oedolyn i bedwar o blant 2 flwydd oed
- Un oedolyn i wyth o blant 3 i 7 mlwydd ac 11 mis oed.

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Cred Meithrinfa Ddydd Lilliput mai rhieni yw prif ofalwyr ac addysgwyr eu plant ac fe'u gwahoddir i gymryd rhan ym mhob agwedd ar y Feithrinfa.

Mae'r Feithrinfa'n cynnal nifer o ddiwrnodau codi arian trwy gydol y flwyddyn ac anogir rhieni i gymryd rhan.

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput wedi'i hyswirio gydag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cyflogwr. Dangosir y tystysgrifau yn y cyntedd.

System Diogelwch

Mae system diogelwch wedi cael ei gosod yn y Feithrinfa. Mae camera wedi cael ei osod wrth y brif fynedfa, mae intercom yn y ddwy ystafell chwarae ac mae sgrîn deledu wedi'i lleoli yn y swyddfa. Mae staff yn gallu adnabod ymwelwyr ar sgriniau o fewn yr ystafelloedd cyn caniatáu mynediad i'r adeilad. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer plant a staff ac yn rhoi tawelwch meddwl i rieni/gofalwyr.

Polisi Derbyn

Mae'r Feithrinfa ar gael i unrhyw un sydd angen gofal plant fforddiadwy o safon ar gyfer plant o 12 wythnos oed i 7 mlwydd ac 11 mis oed. Gwahoddir rhieni/gofalwyr a phlant i ymweld â'r Feithrinfa ar archwiliad cyn dechrau, trwy wneud apwyntiad gyda staff y feithrinfa. Gallwn wahodd rhieni i ymweld â'r Feithrinfa ar ôl oriau gweithredu. Rydyn ni'n cau am 6pm felly gallen ni drefnu ymweliad i weld y Feithrinfa am 6:05pm. Fel arall, gellir trefnu Ymweliad Rhithwir ar FaceTime ar ôl oriau gweithredu. Rydyn ni'n ceisio bod mor hyblyg â phosib.

Mae'r ymweliadau archwilio hyn yn bwysig gan eu bod yn galluogi plant a staff i gwrdd ac i'r rhiant/gofalwr gael mewnwelediad i ansawdd y gofal y bydd eu plentyn yn ei dderbyn. Gellir ymdrin ag unrhyw faterion penodol yn ystod yr ymweliad hwn. Mae'r ymweliadau hyn yn ffordd gyfeillgar ac anffurfiol i bawb gwrdd â'i gilydd.

Gofynnir i rieni/ofalwyr sy'n ymgeisio i Gronfa Arian Wrth Gefn y coleg (CAWG) nodi Meithrinfa Ddydd Lilliput fel y dewis cyntaf ar gyfer eu plant.

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng rhieni/gofalwyr a staff i helpu plant i ymgartrefu o dan ein gofal a datblygu'r hyder i gymryd rhan yn yr holl gyfleoedd a gynigir. Pan fyddwch wedi penderfynu defnyddio'r Feithrinfa byddwch yn derbyn y dogfennau 'Cytundeb Gofal Dydd' angenrheidiol a dolenni i'w cwblhau ar-lein. Bydd angen dychwelyd y rhain ynghyd â'ch taliad ymlaen llaw. Wedyn bydd lle eich plentyn yn cael ei gadarnhau.

Pan fydd lle wedi'i gadarnhau ar gyfer eich plentyn, byddwch yn cael eich gwahodd i un sesiwn dreial (sesiwn un awr). Mae'r sesiwn hon am ddim. Anogir rhieni/gofalwyr i roi cynnig ar sesiynau byrrach yn gyntaf a chynyddu'n raddol i'r hyn sydd ei angen. Bydd hyd y cyfnod hwn yn dibynnu ar y plentyn unigol. Mae rhai plant yn cymryd amser hwy i ymgartrefu na rhai eraill.

Mae anghenion a dewisiadau unigol plant yn cael eu nodi a'u cofnodi pan fyddwch yn cofrestru gyda'r Feithrinfa.

Ein Meithrinfa

Ym Meithrinfa Ddydd Lilliput rydyn ni'n deall pwysigrwydd datblygiad y plentyn ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd, gyda'r pwyslais ar gael hwyl a dysgu trwy chwarae. Mae'r Feithrinfa'n gweithio i sicrhau bod yr holl ganlyniadau dymunol yn cael eu cyflawni ar gyfer yr holl blant. Rydyn ni wedi cyflwyno elfennau o'r Dull Chwilfrydedd. Fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, byddwn yn dilyn 'Cynllunio yn y Foment'. Mae Cynllunio yn y Foment yn caniatáu i'r plant arwain eu dysgu yn unol â'u diddordebau. Byddant yn cael cyfleoedd i ddatblygu ac atgyfnerthu eu sgiliau o fewn amgylchedd deniadol. Mae'r dull hwn sy'n cael ei arwain gan y plentyn yn caniatáu rhyngweithio o ansawdd uchel rhwng oedolion a phlant wrth i ni annog archwilio mewn ffordd reoledig a diogel, dan do ac yn yr awyr agored. Caniateir i'r holl blant yn y Feithrinfa ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain gyda chymorth ac arweiniad gan y staff cymwysedig a phrofiadol iawn. Cânt gyfle i archwilio sawl ffurf o ddeunyddiau naturiol gan ganiatáu iddynt fynegi eu creadigrwydd. Mae'r holl waith celf/crefft y mae'r plant yn ei greu naill ai'n cael ei arddangos yn y Feithrinfa neu ar gael i rieni/gofalwyr fynd adref gyda nhw. Mae'r Feithrinfa yn mabwysiadu trefn hyblyg er mwyn caniatáu i'r plant fwynhau gweithgareddau, cyfleoedd neu gemau yn llawn. Mae croeso i rieni/gofalwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol/diwrnodau codi arian ac ati.

Mae gennym bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr yng Nghynllun Gweithredol y Feithrinfa, sydd ar gael ar gais i holl ddefnyddwyr ein gwasanaeth.

Mae'r polisïau a gweithdrefnau hyn yn cael eu datblygu a'u cynnal yn unol â rheoliadau a'r Isafswm Safonau Cenedlaethol. Maent yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a'u diweddaru pan fydd angen (hysbysir AGC am unrhyw newidiadau sylweddol).

Trefn a Gweithgareddau

Asesir risg gweithgareddau ac anogir plant i adolygu a gwerthuso eu profiad os gallant/os ydynt yn fodlon gwneud.

Asesir cynnydd plant trwy arsylwi a chofnodi. Mae'n ddyletswydd ar Feithrinfa Ddydd Lilliput i rannu peth gwybodaeth gyda'r Awdurdod Lleol, Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg, y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Tîm Seicoleg Addysg, Therapi Galwedigaethol (trafodaeth ymlaen llaw gyda'r rhiant/gofalwr) ac AGC. Mae ein cofnodion ar gael i'w trafod gyda rhieni unrhyw bryd ac yn cael eu cadw yn unol â'n polisi cyfrinachedd.

Ystafell fabanod

Gall yr ystafell fabanod gymryd hyd at 24 o fabanod rhwng 12 wythnos oed a 2 flwydd oed. Rydyn ni'n gweithredu system gweithiwr allweddol, gan neilltuo 3 phlentyn o oedrannau tebyg i aelod o staff ar unrhyw ddiwrnod penodol. Mae'r aelod staff hwnnw yn gyfrifol am ofal y plant trwy gydol eu harhosiad gyda ni.

Tua 18 mis oed rydyn ni'n annog y plant i integreiddio â'r ystafell dros 2 flwydd oed. Mae'r gweithiwr allweddol yn mynd â'u plant i'r ystafell dros 2 flwydd oed lle byddant yn cymryd

rhan yn yr holl weithgareddau ac yn cael cysur ychwanegol eu gweithiwr allweddol.
Mae trefn gartref bob plentyn unigol bob amser yn cael ei dilyn gan y gweithiwr allweddol.
Mae hyn er mwyn hwyluso pontio o gartref i'r Feithrinfa.

Iechyd a Diogelwch – Gofynnir yn gwrtais i rieni/ofalwyr **beidio** â rhoi sleidiau neu belenni addurnol yng ngwallt eu plant pan fyddant yn dod i'r Feithrinfa.
Er bod yr eitemau hyn yn atyniadol iawn, maent yn peri perygl Iechyd a Diogelwch i blant ifainc ac mae staff y Feithrinfa'n pryderu'n gynyddol y gallai fod posibilrwydd o achos tagu difrifol.

Ystafell dros 2 flwydd oed

Gall yr ystafell dros 2 flwydd oed gymryd hyd at 47 o blant rhwng 2 flwydd oed a'r diwrnod cyn eu pen-blwydd yn wyth oed. Rydyn ni'n gweithredu system gweithiwr allweddol, gan neilltuo 4/8 plentyn i aelod o staff, gan ddibynnu ar eu hoedrannau, ar unrhyw ddiwrnod penodol. Mae'r aelod staff hwnnw yn gyfrifol am ofal y plant trwy gydol y diwrnod.

Neilltuir staff i ardaloedd penodedig: ystafell gartref, celf a chrefft, ardal adeiladwaith, gorsaf dychymyg etc... Mae'r plant yn rhydd i symud rhwng gweithgareddau ac mae'r staff yn annog plant i gymryd rhan mewn gwaith grŵp.

Yn ystod eu hamser yn yr ystafell dros 2 flwydd oed rydyn ni'n anelu at adeiladu annibyniaeth plentyn unigol yn barod iddynt bontio i'r ysgol.

Sesiwn y bore

7.30 – 9.30	9.30 – 10.00	10.00 - 11.30	11.30 – 12.30	12.30 – 1.00
Cwrdd a chyfarch rhieni/plant Gweinir brecwast tan 8:30am Golchi dwylo Chwarae rhydd Toiledau/newid cewynnau	Golchi dwylo Byrbryd iach Brwsio dannedd	Amser cylch Traed prysur Chwarae rhydd Cyfleoedd dan do/awyr agored, Ardal adeiladwaith, Gorsaf dychymyg, Celf a Chrefft ac Ystafell gartref. Wedi'i arwain gan blant gyda chyfranogiad gan staff	Golchi dwylo Amser cinio Toiledau/newid cewynnau	Toiledau/newid cewynnau Amser cysgu/gorffwys y plant (Amserau amrywiol) Amser Stori/Canu Chwarae rhydd

Sesiwn y prynhawn

1.00 – 2.00	2.00 – 2.30	2.30 - 3.00	3.00 - 4.30	4.30 – 5.00	5.00 – 6.00
Cyfleoedd dan do/awyr agored, Ardal adeiladwaith, Gorsaf dychymyg, Celf a Chrefft ac Ystafell gartref.	Amser cylch Traed prysur Amser Canu/Stori	Golchi dwylo Byrbryd iach Brwsio dannedd (plant prynhawn yn	Cyfleoedd dan do/awyr agored, Ardal adeiladwaith, Gorsaf dychymyg, Celf a Chrefft ac Ystafell gartref. Wedi'i arwain	Golchi dwylo Amser te Toiledau/newid cewynnau	Chwarae Rhydd Casglu plant

Wedi'i arwain gan blant gyda chyfranogiad gan staff		unig) Toiledau/new id cewynnau	gan blant gyda chyfranogiad gan staff		

Diwallu Anghenion Unigol

Bydd y Feithrinfa'n ymdrechu i ddarparu'r gofal gorau posib ar gyfer y plant i gyd. Rydyn ni'n croesawu plant sydd ag anghenion ychwanegol, waeth p'un a yw'r rhain yn gorfforol, yn ymddygiadol neu'n gysylltiedig â dysgu. Rydym hefyd yn trafod anghenion y plentyn gyda'r rhiant, ac rydyn ni'n barod i gynnig cymorth a chefnogaeth os bydd eu hangen. Os oes angen gofal un i un, bydd y trefniadau ymarferol yn cael eu trafod gyda'r rhiant/gofalwr cyn i'r plentyn ddechrau yn y Feithrinfa. Rydyn ni'n cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill o asiantaethau allanol hefyd i uchafu ansawdd y gofal a ddarparwn.

Mae'r holl staff yn ymwybodol bod dyletswydd arnynt i gynnwys y plentyn ym mhob cyfle a gynigir yn y feithrinfa, gydag addasiadau os bydd angen. Anogir yr holl staff yn gadarnhaol gan y coleg i ymgymryd â hyfforddiant/cyrsiau i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion ychwanegol.

Prydau a Byrbrydau

Rydyn ni'n darparu brecwast iachus (ar gais), byrbrydau iachus yng nghanol y bore a'r prynhawn. Darperir llaeth/dŵr hefyd. Mae'r rhain wedi'i cynnwys yn y ffi dyddiol. Mae cinio prynhawn a, 12 hanner dydd. Gall cinio gael ei ddarparu gan Ffreutur y Coleg am ffi dyddiol, neu gall rhieni ddarparu cinio pecyn. Mae cinio hwyr ar gael am gost ychwanegol hefyd. Mae'n rhaid talu arian Cinio a Chinio Hwyr mewn arian parod, bob dydd neu bob wythnos. Pan fydd Ffreutur y Coleg ar gau yn ystod y gwyliau, darperir prydau gan Y Pafiliwn, Llandarcy.

Gellir darparu ar gyfer anghenion deietegol arbennig ar gais. Mae alergeddau/trefniadau penodol ar gyfer bwyd yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd chwarae ac yn y gegin.

Dim ond llaeth neu ddŵr rydyn ni'n eu caniatáu trwy gydol y dydd, **ni chaniateir diodydd ffrwythau, pop, te, coffi etc**.... yn y feithrinfa. Os bydd rhieni/gofalwyr yn dewis darparu eu cinio eu hunain, rydyn ni'n gofyn am brydau iachus a maethlon, dim creision, losins, siocled, bisgedi etc... Mae dŵr ar gael i blant ei yfed trwy'r amser.

Mae babanod yn cael eu bwydo yn ôl eu hanghenion penodol eu hunain. Ar gyfer babanod sydd ar fwyd fformiwla o hyd, bydd y fformiwla'n cael ei wneud yn ffres fel y bydd ei angen arnynt. Rydyn ni'n rhan o'r 'Cynllun Croesawu Bwydo Ar y Fron' ac mae croeso i famau sy'n bwydo ar y fron ddod i mewn i'r feithrinfa unrhyw bryd i fwydo eu baban. Fel arall, gellir godro llaeth o'r fron a dod ag ef i mewn bob dydd neu ei rewi a'i storio yn rhewgell y feithrinfa, mewn cynhwysydd sydd wedi'i labelu gydag enw eich plentyn, i'ch baban ei ddefnyddio.

Cadwodd y Feithrinfa y radd uchaf o '5' yn ystod yr arolygiad diwethaf gan Adran Iechyd yr Amgylchedd ar 22/01/2026.

Maeth ac Iechyd y Geg

Ym Meithrinfa Ddydd Lilliput rydyn ni'n anelu at hyrwyddo bwyta'n iach, er mwyn darparu plant gyda deiet sy'n eang ac yn gytbwys o ran maeth i ddatblygu eu hiechyd, twf a lles. Darperir ar gyfer anghenion a dymuniadau unigol pob plentyn, boed meddygol neu ddiwylliannol.

Rydyn ni'n darparu amgylchedd bwyta llonydd ac atyniadol lle mae staff yn eistedd ac yn bwyta gyda phlant er mwyn darparu modelau rôl da yn ystod amser bwyd. Anogir plant i olchi eu dwylo cyn byrbrydau neu brydau bwyd. Mae'r staff yn dangos i blant bod amser bwyd yn amser da i'w fwynhau ac i gymdeithasu gyda'i gilydd. Rydyn ni'n annog y plant i fod yn annibynnol trwy fwydo eu hunain, gan ddefnyddio offer priodol.

Mae'r cinio a ddarperir gan ffreutur y Coleg bob amser yn ddewis iach, sy'n addas ar gyfer pob plentyn unigol. Y pwdin a ddarperir yw iogwrt naturiol/ffrwythau. Mae diodydd ar gael ar alw trwy gydol y dydd ac rydyn ni'n annog y plant i yfed digon o ddŵr.
Mae ein bwydlen wythnosol wedi'i harddangos ar yr hysbysfwrdd rhieni/gofalwyr yn y cyntedd.

Rydyn ni'n rhan o'r rhaglen brwsio dannedd i blant, y 'Cynllun Gwên'. Fel rhan o'r cynllun hwn mae pob plentyn yn cael ei frwsh dannedd ei hun, i'w gadw yn y feithrinfa, ac yn cymryd rhan mewn brwsio dannedd o dan oruchwyliaeth yn rheolaidd.

Toiledau/Newid Cewynnau

Ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei ddiarddel o fynychu Meithrinfa Ddydd Lilliput os yw o bosib yn dal yn defnyddio cewynnau a heb ei hyfforddi i ddefnyddio'r toiled eto am unrhyw reswm. Rydyn ni'n gweithio ar hyfforddiant toiled gyda rhieni/gofalwyr.

Mae'r holl blant yn cael eu hebrwng i'r toiled, hyd yn oed y plant hŷn a mwy medrus. Nid yw plant byth yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain yn yr ystafell ymolchi. Mae'r holl blant yn cael eu trin gydag urddas, gofal a thosturi wrth newid cewynnau/defnyddio'r toiled.

Mae'n rhaid i rieni/ofalwyr ddarparu cewynnau, hancesi gwlyb ac eli i sicrhau bod gan y staff gyflenwad digonol ar gyfer pob plentyn.
Rydyn ni'n cynnal y safonau hylendid uchaf posib. Mae'n rhaid i'r holl blant ac oedolion olchi eu dwylo ar ôl mynd i'r toiled, ac mae staff yn gwisgo cyfarpar diogelwch.

Cofnodir pob cewyn a newidir a phob taith i'r toiled.

Iechyd a Salwch

Peidiwch â dod â'ch plentyn at y feithrinfa os yw ef/hi'n sâl. Mae'r Feithrinfa'n cadw'r hawl i wrthod mynediad neu anfon adref unrhyw blentyn sydd i'w weld yn sâl neu'n dioddef o anhwylder ymledol neu heintus. Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl yn ystod ei amser yn y Feithrinfa byddwn yn cysylltu â chi neu rywun a enwebir ar eich ffurflen cytundeb gofal dydd i'w gasglu/chasglu.

I sicrhau y gallwn gysylltu â chi'n gyflym, cofiwch sicrhau bod yr holl fanylion cyswllt wedi'u diweddaru. Hefyd, gofynnir i chi gysylltu â'r Feithrinfa os yw eich plentyn yn dioddef o afiechyd ymledol oherwydd y gallai fod modd i ni isafu ymlediad y fath glefydau os cawn ein hysbysu amdanynt. Mae'n rhaid i chi hysbysu'r feithrinfa am bob absenoldeb.

Mae canllawiau ar gyfer cyfnodau diarddel yn sgil salwch, sydd wedi'u pennu gan y Tîm Diogelu Iechyd Lleol, wedi'u harddangos ar yr hysbysfwrdd rhieni/gofalwyr. Byddwch yn derbyn copi ohonynt gyda'ch pecyn 'Cytundeb Gofal Dydd'.

Meddyginiaeth

Noder y bydd staff yn rhoi meddyginiaeth i blentyn dim ond cyhyd â bod caniatâd ysgrifenedig wedi'i dderbyn ymlaen llaw. Gall meddyginiaeth bresgripsiwn neu 'dros y cownter' gael eu rhoi yn y Feithrinfa ar ôl derbyn caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Chi sy'n gyfrifol am hysbysu aelod o staff a llofnodi'r ffurflen 'meddyginiaeth'.

Os bydd angen rhoi cwrs o feddyginiaeth wrthfiotig, ein polisi yw gwahardd plant am 24 awr cyntaf y cwrs. Dylid rhoi o leiaf dau ddos gartref.

Mae'n rhaid labelu meddyginiaeth bresgripsiwn yn glir gydag enw llawn y plentyn. Dylid rhoi'r feddyginiaeth, yn ei phecyn gwreiddiol, i aelod o staff wrth i chi gyrraedd.

Eli Haul

Pwysig - Gofynnir i bob rhiant/gofalwr ddod ag eli haul a het haul. Wrth ddewis eli haul, cofiwch sicrhau bod ganddo ffactor amddiffyn haul (SPF) o 30 neu'n uwch a'i fod yn effeithiol yn erbyn UVA ac UVB. Os nad oes gan eich plentyn unrhyw amddiffyniad yn erbyn yr haul, bydd yn cael ei gadw i mewn yn gwneud gweithgareddau dan do.
Mae hyn er mwyn sicrhau bod eich plentyn wedi'i amddiffyn yn erbyn pelydrau UV niweidiol ac nad yw'n dioddef niwed i'r croen trwy losg haul.
Gwnewch yn siŵr nad yw'r eli haul wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad dod i ben. Mae gan y rhan fwyaf o elïau haul fywyd silff o 2 i 3 blynedd.

Diogelu Plant

Polisi Meithrinfa Ddydd Lilliput yw mai diogelwch, lles ac amddiffyn plant yw ein blaenoriaeth bennaf pan fyddant o dan ein gofal. Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn gweithio mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
Deellir bod y Feithrinfa o dan rwymedigaeth i adrodd i'r awdurdodau perthnasol unrhyw achos lle tybiwn y gallai plentyn fod wedi'i gam-drin neu ei esgeuluso neu os oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â lles y plentyn. Mae'n bosib y bydd hyn yn cael ei wneud heb hysbysu'r rhiant/gofalwr. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir gan riant/ofalwr ynglŷn â'u plentyn yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ac eithrio mewn achosion pan dybir bod camdriniaeth wedi digwydd i blentyn.

Mae'r tîm rheoli wedi mynychu hyfforddiant Cyfrifoldebau Diogelu Rheolwyr helaeth ac mae holl staff y Feithrinfa wedi mynychu hyfforddiant Amddiffyn Plant Sylfaenol. At hynny, mae staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein mewn perthynas â Diogelu.

Y Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig yw Rheolwr y Feithrinfa, Andrea Tregoning a'r Dirprwy Swyddogion Amddiffyn Plant yw Cerys Jones a Stephanie Powell.

Casglu Plentyn

Er diogelwch y plentyn ni fydd y Feithrinfa'n rhyddhau unrhyw blentyn i unigolyn anawdurdodedig, hyd yn oed os yw'r plentyn yn cael ei gasglu'n hwyr. Os yw unrhyw unigolyn heblaw'r rhiant/gofalwr yn casglu'r plentyn, mae'n **RHAID** hysbysu staff y Feithrinfa.

Mae gennym lyfr mewngofnodi y mae'n rhaid i'r rhiant/gofalwr sy'n gadael y plentyn ei gwblhau. Mae'n rhaid iddynt ddatgan yn glir pwy fydd yn casglu'r plentyn ac os bydd hyn yn newid yn ystod y dydd, mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r Feithrinfa i'w hysbysu.

Os bydd rhywun heblaw'r unigolyn a nodir yn dod i gasglu'r plentyn, bydd Swyddog/Dirprwy y Feithrinfa'n cysylltu â'r prif ofalwr i gael caniatâd. Yn ddelfrydol hoffai staff y Feithrinfa gwrdd â'r person a enwir ymlaen llaw. Os nad yw hyn yn bosib mae llun neu ddisgrifiad da'n bwysig. Gwnewch yn siŵr bod y person a enwebir i gasglu eich plentyn o'r feithrinfa yn 16 oed neu'n hŷn.

Os na chawn ein hysbysu am newid yn y trefniadau casglu, ni fydd y staff yn caniatáu i'r plentyn adael y Feithrinfa.

Yn unol â chanllawiau cofrestru AGC ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus y Coleg, nid yw'r Feithrinfa ond wedi'i hyswirio a'i hawdurdodi i weithredu rhwng 7.30am a 6.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Mae'n rhaid i Rieni/Gofalwyr hysbysu ni'n ddi-oed os na allant gasglu'r plentyn o'r Feithrinfa, waeth p'un a ydynt yn casglu ar ôl un sesiwn neu ddiwrnod llawn. Codir tâl casglu hwyr o £15 yr hanner awr i dalu costau staff.

Ffioedd a Thaliadau

Y strwythur ffioedd - yn effeithiol o ddydd Gwener 01 Awst 2025:

OEDRAN	DYDDIOL	SESIYNAU	½ SESIYNAU	7.30am – 8am
0 – 2 Oed	£55.00	£35.00	£20.00	£5.00
2 - 7 mlynedd ac 11 mis	£50.00	£30.00	£18.00	£5.00

Diwrnod llawn – 8am i 6pm, Hanner diwrnod – 8am i 1pm/1pm i 6pm. Mae sesiynau 2½ awr ar gael hefyd

Mae contractau amser tymor, rota a gwyliau ar gael ar gais. Noder bod y rota a chontractau gwyliau yn amodol ar argaeledd.

Codir tâl am absenoldebau ar y gyfradd lawn. Mae'n ofynnol i'r holl rieni/ofalwyr nodi ym mha ffordd yr hoffent dalu eu hanfoneb Meithrinfa, a dyma wybodaeth y gofynnir amdani ar y cytundeb gofal dydd. Mae'n rhaid gwneud taliadau ymlaen llaw, bob wythnos neu bob mis.

Gellir gwneud taliadau gydag arian parod neu gerdyn credyd/debyd. Ar gyfer trosglwyddiadau banc, mae gwybodaeth cyfrif banc Meithrinfa Ddydd Lilliput ar gael ar gais. Rydyn ni'n gofrestredig gyda Chynnig Gofal Plant Di-dreth y Llywodraeth a 30 awr o Ofal Plant Am Ddim Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n derbyn cynlluniau tocyn Gofal Plant hefyd a, chan ddibynnu ar amgylchiadau personol mae amrywiaeth o grantiau/cyllid ar gael gan y coleg.

Bydd y ffioedd yn destun cynnydd blynyddol wrth dderbyn rhybudd gan Feithrinfa Ddydd Lilliput. Dyfynnir y prisiau fesul plentyn ac maent yn cynnwys brecwast a byrbrydau.

Gofynnwn i chi setlo'ch cyfrif yn brydlon i'n helpu cadw costau i lawr. Bydd unrhyw oedi wrth dalu'n golygu ffi taliad hwyr o £20. Bydd plant yn cael eu diarddel o'r Feithrinfa a chaiff eu cofrestriad ei derfynu os bydd ffioedd heb eu talu am fwy na 14 diwrnod y tu hwnt i'r dyddiad dyledus. Chi sy'n gyfrifol am gael derbynneb gan y feithrinfa fel prawf o dalu.

Noder bod ffioedd yn daladwy yn ystod cyfnodau absenoldeb o'r Feithrinfa oherwydd salwch neu unrhyw wyliau y dymunwch eu cymryd. Cynghorir rhieni/gofalwyr i siarad ag Andrea Tregoning, Rheolwr y Feithrinfa, ynghylch talu ffioedd mewn achosion o absenoldeb hir.

Pan fydd lle wedi'i gadarnhau yn y feithrinfa, mae'r taliad cyntaf yn ddyledus ymlaen llaw er mwyn cadw'r lle. Gellir talu ffioedd yn ddyddiol, wythnosol neu'n fisol, ymlaen llaw.

Y cyfnod rhybudd gofynnol ar gyfer terfynu'r contract yw **un mis**, yn ysgrifenedig. Os rhoddir rhybudd annigonol byddwch chi'n gyfrifol am dalu'r ffioedd llawn.

Dechrau'n Deg

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput wedi'i chofrestru ac yn gallu cynnig gwasanaeth 'Dechrau'n Deg' i'n cymuned. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen Blynyddoedd Cynnar a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer teuluoedd, gan gynnwys lleoedd am ddim mewn cylchoedd chwarae i blant 2-3 oed am 2.5 awr, 5 diwrnod yr wythnos. Os oes gennych unrhyw blant ar hyn o bryd rhwng 2 a 3 oed, gwiriwch a ydych yn gymwys. Os ydych yn gymwys yna cwblhewch y broses i gofrestru ar-lein a dewis Meithrinfa Ddydd Lilliput fel eich dewis leoliad. Bydd tîm Dechrau'n Deg Castell-nedd Port Talbot yn gwirio argaeledd ac yn cysylltu â chi i drefnu'r camau nesaf.

Os ydych yn mynychu lleoliad Dechrau'n Deg gyda darparwr arall ar hyn o bryd, gallwch wneud cais i drosglwyddo. Mae lle rhan-amser Dechrau'n Deg yn lleiafswm o 3 sesiwn am 2.5 awr ar ddiwrnodau ar wahân, lle llawn amser yw 5 sesiwn ar ddiwrnodau ar wahân".

Cynnig Gofal Plant i Gymru

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput wedi'i chofrestru ac yn gallu cynnig y cynllun gofal plant 30 awr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant 3 a 4 oed cymwys y mae eu rhieni'n gweithio neu'n astudio. Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir bob wythnos am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Mae'r cynnig ar gael i blant o'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd hyd at y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed pan gynigir lle addysg llawn amser iddynt.

Os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i: www.npt.gov.uk/2107

Gofal Plant Di-dreth

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput wedi'i chofrestru gyda chynllun Gofal Plant Di-dreth y Llywodraeth. Mae'r cynllun ar gyfer rhieni sy'n gweithio gyda phlant o dan 12 oed (neu o dan 17 ar gyfer plant anabl), gallwch agor cyfrif ar-lein i dalu am ofal plant cofrestredig. Bydd y llywodraeth yn ychwanegu at yr arian y byddwch yn ei dalu i mewn i'r cyfrif. Am bob £8 y mae'r rhiant yn ei dalu i mewn, bydd y llywodraeth yn ychwanegu £2 ychwanegol. Gall rhieni dderbyn hyd at £2,000 y plentyn, neu £4,000 os oes gan eu plentyn anabledd.

Ffioedd Heb eu Talu

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn cadw'r hawl i godi llog ar ffioedd heb eu talu ar gyfradd o 5%. Disgwylir y bydd unrhyw/yr holl ffioedd Meithrinfa'n cael eu talu'n llawn erbyn yr adeg y bydd eich plant yn barod i adael y Feithrinfa. Os na thelir ffioedd Meithrinfa neu os na chymerir camau i ostwng costau gofal plant dyledus, mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn cadw'r hawl i ganslo lle plentyn o fewn y lleoliad.

Amodau a thelerau

Mae'r rhain wedi'u disgrifio yn y contract rhwng rhieni/gofalwyr a Meithrinfa Ddydd Lilliput ac maent wedi'u hymwreiddio yn ein polisïau a gweithdrefnau.

Mae'n rhaid i rieni/ofalwyr lofnodi'r contract a chwblhau'r ffurflen gofrestru cyn i'w plentyn ddechrau. Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr hysbysu'r Feithrinfa ar unwaith am unrhyw newidiadau i amgylchiadau personol y plentyn. Mae'n rhaid hysbysu'r Feithrinfa am unrhyw newidiadau i fanylion cyswllt rieni/gofalwyr.

Mae samplau o'r contract, y ffurflen gofrestru a'r set lawn o bolisïau ar gael gan swyddfa'r Feithrinfa.

Hysbysir AGC a rhieni/gofalwyr am unrhyw newidiadau i'r datganiad o ddiben hwn, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol o leiaf neu o ganlyniad i newid mewn arferion gweithredu. (Cefnogir y datganiad o ddiben gan gynllun gweithredol Meithrinfa Ddydd Lilliput a bydd unrhyw newidiadau i'r un yn cael eu hadlewyrchu yn y llall.)

Hysbysir AGC 28 niwrnod cyn y bydd newid yn dod i rym.

Nursery Genie – Pecyn Meddalwedd

Mae Nursery Genie yn gwmni sy'n darparu pecynnau meddalwedd gofal plant yn unol â rheoliadau AGC. Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput wedi bod mewn cyswllt â Swyddog Diogelu Data Grŵp Colegau NPTC i gwblhau asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ac i sicrhau y cynhelir cydymffurfiaeth GDPR.

Bydd ffurflenni cofrestru a chaniatâd yn cael eu hanfon trwy e-bost at bob defnyddiwr y gwasanaeth. Gofynnir i ddefnyddwyr y gwasanaeth gwblhau'r ffurflenni i alluogi staff Goruchwylio i gofnodi eich gwybodaeth ar y system. Bydd y system yn cadw gwybodaeth fanwl am bob plentyn yn ddiogel e.e. gwybodaeth bersonol, manylion meddygol ac alergeddau, cofnodion datblygiadol, damweiniau, unrhyw achosion eraill. Mae'n cynnwys system anfonebu hefyd Bydd fersiwn electronig o adroddiad dyddiol y plentyn yn cael ei anfon adref at rieni/gofalwyr trwy e-bost.

Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd y Feithrinfa ar gyfer eu sesiwn, bydd staff y Feithrinfa'n fewngofnodi nhw ar y system. Staff: gellir monitro cymarebau plant gan ddefnyddio'r system gan fod plant yn cael eu mewngofnodi a'u hallgofnodi mewn amser real.

Mae Nursery Genie hefyd yn ffordd effeithiol o gyfathrebu â rhieni/gofalwyr. Gellir anfon negeseuon a diweddariadau at bawb yn ddi-oed.

Trefniadau Argyfwng

Os ceir sefyllfa sy'n golygu na ellir defnyddio'r Feithrinfa, bydd y coleg yn gweithio gyda Rheolwr y Feithrinfa i drefnu llety amgen o fewn y coleg. Bydd ardal/ystafell yn cael ei neilltuo a sicrheir bod yr ardal honno'n cyfateb i ganllawiau a rheoliadau AGC. Cysylltir â'r holl rieni/ofalwyr os yn briodol.

Os bydd angen gadael ar frys oherwydd larwm tân bydd y plant yn cael eu hebrwng yn ddigynnwrf gan staff o'r adeilad i Theatr Nidum/yr adeilad diogel agosaf, lle gallant gael eu cysuro, eu cadw'n gynnes ac yn sych a'u difyrru. Cedwir cofnodion o'r holl ymarferion tân fel y gellir cynnal adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i wella'r broses.

Mae gan Feithrinfa Ddydd Lilliput weithdrefnau ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel tra o dan ein gofal. Cyflawnir Asesiadau Risg yn rheolaidd a llenwir cofnod peryglon dyddiol ar ddechrau pob sesiwn.

Maes Parcio

Mae dau le parcio dynodedig ar gyfer mynd â phlant i'r Feithrinfa a'u casglu wedyn. Yn ystod amserau prysur o'r dydd, gofynnir i chi sicrhau eich bod yn parcio eich cerbyd mewn lle parcio priodol arall os yw'r lleoedd hyn wedi'u cymryd. Rhowch flaenoriaeth i ddiogelwch ar bob adeg.

Cwynion neu Bryderon

Rydyn ni'n ymroddedig i ddarparu gwasanaeth agored o'r radd flaenaf ac yn anelu at ddarparu'r gofal gorau posib ar gyfer eich plentyn. Os byddwch yn anfodlon, gofynnwn i chi siarad yn gyntaf ag un o'n haelodau staff, neu Ddirprwy Swyddogion y Feithrinfa. Mae gennym flwch awgrymiadau ar y bwrdd yn y cyntedd.

Os dymunwch godi mater mwy difrifol, gallwch gysylltu â'n Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr Meithrinfa, Andrea Tregoning, ar 0330 818 8039. Gofynnir i chi gyflwyno'ch cwyn yn ysgrifenedig, ac fe gewch eich hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniad yr ymchwiliad o fewn 14 diwrnod.

Os teimlwch nad ymdriniwyd â'ch cais yn foddhaol, efallai y byddwch am gysylltu â David Rush, Cyfarwyddwr Colegau a Chyfleusterau, Grŵp Colegau NPTC, Campws Castell-nedd. Eto, gofynnwn i'r gŵyn gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig. Fe gewch eich hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniad yr ymchwiliad o fewn 14 diwrnod.

Nid yw AGC yn asiantaeth sy'n cynnal ymchwiliadau. Er hynny, maent yn hapus i wrando ar unrhyw bryderon sydd gennych.

AGC – Swyddog Arolygu
AGC Rhanbarth De Cymru,
Adeilad y Llywodraeth,
Teras Picton,
Caerfyrddin,
SA31 3BT
E-bost: agc@llyw.cymru
Ffôn: - 0300 7900 126

Mwy o Wybodaeth

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch neu fe hoffech wneud trefniadau i ymweld â'r Feithrinfa, mae pob croeso i chi gysylltu ag Andrea Tregoning, Cerys Jones neu Stephanie Powell.

Meithrinfa Ddydd Lilliput
Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot
Heol Dŵr-y-Felin
Castell-nedd
SA10 7RF
Ffôn: - 0330 818 8039
Symudol: 07824473331
E-bost: lilliputdaynursery@nptcgroup.ac.uk

Crëwyd y datganiad o ddiben hwn ar gyfer Meithrinfa Ddydd Lilliput ar: 01 Mawrth 2017
Gan: Andrea Tregoning Swydd: Unigolyn Cyfrifol/Person â Gofal a Rheolwr y Feithrinfa
Dyddiad adolygu: 04 Chwefror 2026 Dyddiad hysbysu AGC am y newid: 05 Chwefror 2026